


Mae angen Rhoddwyr Platennau yng Nghymru



GGC Cyf: 197C Fersiwn 1 12/15



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth
GIG Felindre
Velindre NHS Trust

gwaedcymru.org.uk
0800 252266

Mae angen Rhoddwyr Platennau yng Nghymru

Wyddech chi, yn ogystal â chasglu gwaed cyflawn, fod angen i Wasanaeth Gwaed Cymru hefyd gasglu platennau?

Beth yw platennau?



Mae platennau yn gyfansoddion gwaed, ac ynghyd â phethau eraill yn y gwaed, maent yn hanfodol i atal gwaedu a chleisio.

Pwy sydd angen platennau?



Mae llawer o gleifion yng Nghymru yn dibynnu ar blatennau bob dydd, gan gynnwys cleifion sydd â chanser, lewcemia, babanod a enir cyn eu hamser a babanod newydd-anedig, a chleifion gofal brys.

Dim ond am 5-7 diwrnod mae platennau'n gallu para, felly mae hyn yn golygu bod angen rhoddwyr arnom yn gyson!

Sut rydym yn casglu platennau?

Mae'r broses yn debyg iawn i roi gwaed, ond mae'n cymryd ychydig mwy o amser. Rydym yn gwirio i sicrhau bod y rhoddwr yn ffit ac yn iach i roi platennau, mae gwaed yn cael ei dynnu trwy nodwydd a'i drosglwyddo i beiriant sy'n gwahanu'r platennau o'ch gwaed, a bydd eich gwaed yn cael ei ddychwelyd yn ôl yn ddiogel i chi. Ar ôl 90 munud, bydd y broses yn dod i ben! Gall 1 rhodd gynhyrchu 3 bag o blatennau.

Allwch chi helpu?



Ydych chi rhwng 17 a 65 oed?



Ydych chi'n gallu sbario dwy awr yn rheolaidd? (mae rhoddwyr platennau yn gallu rhoi platennau sawl gwaith y flwyddyn!)



Ydych chi fel arfer yn ffit ac yn iach, ac yn pwyso mwy na 9 stôn ond llai na 23 stôn a gyda gwythiennau cryf?



Ydych chi'n gallu teithio i'n pencadlys ym Mhont-y-clun (M4 – C34)?

Os ateboch ydw, gallech efallai fod yn rhoddwr platennau.

Cymerwch y cam nesaf!

Gallwch gysylltu mewn sawl ffordd

Siaradwch ag aelod o staff heddiw!

Fel arall, llenwch a dychwelwch y ffurflen hon at:

**Recriwtio Rhoddwyr, Gwasanaeth Gwaed Cymru,
RHADBOST CF388, Pont-y-clun, CF72 8ZZ.**

Ewch i'n gwefan **www.welshblood.org.uk**
neu ffoniwch ni ar **0800 252266**.

Enw Llawn (Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall)

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif Ffôn Cartref:

Rhif Ffôn Gwaith:

Rhif Ffôn Symudol:

Dyddiad Geni:

Grŵp Gwaed (os yw'n hysbys):

Rhif Rhoddwr Gwaed (os yw'n hysbys):

E-bost:

Dyddiad:

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu asesiad yn
Nhonysguboriau, lle bydd ein tîm arbenigol yn edrych ar
eich braich i wneud yn siŵr bod eich gwythiennau yn
addas oherwydd y gwahanol offer a ddefnyddir, ac yn
gwirio cyfrif eich platennau eich hun – i sicrhau bod
gennych ddigon i'w sbario!

***Mae rhoi platennau yn debyg i roi
gwaed, dim ond ei fod yn cymryd
ychydig yn hirach***



**Chwilio Gwasanaeth
Gwaed Cymru**



@rhowchwaedgymru

**Rhoi platennau
Gwasanaeth Gwaed Cymru
0800 252266
gwaedcymru.org.uk**